Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan
Regional Safeguarding Children Board

BWRDD DIOGELU PLANT RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

CYNLLUN BLYNYDDOL

2018 – 2019

CYNNWYS

	Tudalen
CYFLWYNIAD EIN DATGANIAD CENHADAETH	3
BETH YW DIOGELU? BETH YW BWRDD DIOGELU?	4
AELODAETH	5-6
STRWYTHUR	7
MEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER 2018/2019	8
BLAENORIAETH 1	9
BLAENORIAETH 2	9
BLAENORIAETH 3	10
BLAENORIAETH 4	10
CYLLIDEB Y BWRDD	11
CYSYLLTU Â NI	12

CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn nodi blaenoriaethau strategol, camau gweithredu allweddol, cerrig milltir a mesurau perfformiad, ynghyd â'r partneriaid cyfrifol a'r strwythur ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r gofynion cyfredol a osodir ar y Byrddau Diogelu Plant gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan y canllaw hwnnw, mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu Plant baratoi cynlluniau blynyddol, i'w cyhoeddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, a pharatoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol bob mis Gorffennaf yn cynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol y flwyddyn flaenorol. Mae'r Ddeddf, a ategir gan y rheoliadau, yn darparu ar gyfer pryd a sut y caiff y cynlluniau ac adroddiadau blynyddol eu cyhoeddi ac yn nodi cynnwys y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol.

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

EIN DATGANIAD CENHADAETH

Bydd Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu hecsploetio yn y rhanbarth .

I gyflawni'r nod hwn bydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo'r gwaith o lunio strategaethau effeithiol i osgoi risg
- Sicrhau bod asiantaethau yn gallu herio eu hunain a phartneriaid wrth fod yn atebol am ddiogelu plant yn effeithiol yn unigol ac ar y cyd
- Sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a'i gydnabod wrth wneud penderfyniadau
- Hybu diwylliant o ddadansoddi ac adolygu critigol er mwyn sicrhau'r gwaith o ddysgu gwersi pan fydd plant yn dioddef niwed yn sgil bylchau yn y polisi, systemau neu o ran ymarfer.

BETH YW DIOGELU?

Mae **Diogelu** yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant. Dylai pob plentyn gael ei amddiffyn rhag cael ei frifo, ei roi mewn perygl o niwed neu ei gam-drin, waeth beth fo'i oedran, rhyw, crefydd neu ethnigrwydd.

Cam-drin

Caiff plentyn ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fydd rhywun yn ei niweidio, neu'n methu â gweithredu i atal niwed.

Gall plant fod mewn perygl o gael eu cam-drin mewn teulu, sefydliad neu leoliad yn y gymuned, gan y sawl y maent yn eu hadnabod neu, yn fwy anaml, gan ddieithryn.

Ystyr "cam-drin" yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys cam-drin sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn annedd preifat, sefydliad neu unrhyw fan arall). Mae diffiniadau o'r gwahanol fathau o gam-drin ar gael ar ein gwefan yn https://www.cardiffandvalersb.co.uk/children/children-and-young-people/abuse-definitions/

BETH YW BWRDD DIOGELU?

Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg (BDPRh) yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o bob un o'r prif asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant yn ein rhanbarth.

Fel yr amlinellwyd yng nghanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw:

a) amddiffyn plant yn ei ardal sy'n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed, ac
b) atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed.

Er mwyn bodloni'r amcanion hyn mae gan Fwrdd Diogelu nifer o swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Gweithio Gyda'n Gilydd i ddiogelu Pobl - Cyfrol 1 Cyflwyniad a Throsolwg

AELODAETH

Mae'r aelodaeth yn cyd-fynd â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Ran 7 (Adran 134(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014). Isod ceir rhestr o'r aelodau:

Enw	Swydd
Awdurdod Lleol	
Tony Young CYD-GADEIRYDD	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Caerdydd
Lance Carver CYD-GADEIRYDD	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg
Irfan Alam	Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Caerdydd
Rachel Evans	Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg
Alys Jones	Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd
Natasha James	Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd	
Sheila Harrison	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Linda Hughes-Jones	Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Katina Kontos	Diogelu Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	
Jayne Elias	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Susan Morgan	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Heddlu De Cymru	
Steve Murray	Uwch-arolygydd ar gyfer Uned Rheoli Sylfaenol y Dwyrain, Heddlu De Cymru
Claire Evans	Uwch-arolygydd ar gyfer yr Uned Rheoli Sylfaenol Ganolog, Heddlu De Cymru
Beth Aynsley	Rheolwr Annibynnol Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed, Heddlu De Cymru
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	
Hannah Williams	Pennaeth Uned Gyflenwi Leol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Jane Foulner	Uwch Swyddog Prawf ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	
Victoria Harris	Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol ar gyfer y Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Addysg	
Jacqueline Turner	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Caerdydd
David Davies	Pennaeth Cyflawniad i Bawb ar gyfer Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, Bro Morgannwg
Deborah Herald	Pennaeth Dros Dro Ysgol Gynradd Riverbank, Caerdydd
Anna Davies	Dirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg
Tîm Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru, Iechyd y Cyhoedd Cymru	
Linda Davies	Nyrs Ddynodedig ar gyfer Tîm Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru, Iechyd y Cyhoedd Cymru
Alison Mott	Meddyg Dynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd y Cyhoedd Cymru

Fisâu a Mewnfudo	
Kala Smith	Arbenigwr Technegol ac Arweinydd Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches ar gyfer Fisâu a Mewnfudo y DU
Rhiannon Chatterton	Pennaeth Lloches ar gyfer Fisâu a Mewnfudo y DU
Tai	
Pam Toms	Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Bro Morgannwg
Kate Hustler	Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Caerdydd
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	
Paula Barnett	Rheolwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg
Daniel Jones	Rheolwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Caerdydd
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	
Nikki Harvey	Pennaeth Diogelu ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Trydydd Sector	
Tracy Holdsworth	Rheolwr Gwasanaeth, NSPCC
Emma Phipps Magill	Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Liz Baker	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardo's
Morgan Fackrell	Prif Weithredwr Cymorth i Fenywod Caerdydd
Cynghorwyr Presennol	
Sheila Davies	Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd, Tîm Cyfreithiol Cymunedol, Caerdydd

Mae cynrychiolwyr ychwanegol yn ffurfio'r Is-grwpiau canlynol:

- **Is-grŵp Adolygu Ymarfer Adolygu Ymarfer Plant / Adolygu Ymarfer Oedolion**
- **Is-grŵp Hyfforddiant**
- **Is-grŵp Archwilio**
- **Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
- **Is-grŵp Polisïau, Gweithdrefnau a Phrotocol**
- **Grŵp Strategol Thematig**
- **Grwpiau Gorchwyl a Gorffen (yn ôl y galw)**

STRWYTHUR


Byrddiau Diogelu Plant/Oedolion Rhanbarthol
Grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Oedolion
Grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Plant
Is-grŵp Archwilio Oedolion
Is-grŵp Hyfforddiant ar y Cyd
Is-grŵp Polisïau, Gweithdrefnau a Phrotocolau ar y Cyd
Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant / Oedolion Adolygu ar y Cyd
Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar y Cyd
Is-grŵp Archwiliadau Plant
Grŵp Thematig Oedolion
Paneli Adolygu Ymarfer Plant / Oedolion
Is-grŵp Thematig Plat
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen (yn ôl y galw)

MEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER 2018/2019

Pedwar maes blaenoriaeth cyffredinol BDPRh Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer 2018/2019 yw:

Blaenoriaeth 1	**Effeithiolrwydd y system amddiffyn plant**
Blaenoriaeth 2	**Plant ar gyrion y system amddiffyn plant**
Blaenoriaeth 3	**Sicrhau cyfranogiad defnyddwyr- gwasanaethau**
Blaenoriaeth 4	**Dysgu gwersi yn seiliedig ar adolygiadau**

Blaenoriaeth 1 - Effeithiolrwydd y System Amddiffyn Plant

Canlyniad: Mae'r Bwrdd yn hyderus bod plant yn ddiogel a bod systemau effeithiol ar waith o ran eu diogelu.
Beth mae hyn yn ei olygu? Mae BDPRh Caerdydd a Bro Morgannwg yn awyddus i sefydlu system sy'n rhoi sicrwydd cyffredinol o ran effeithiolrwydd ymarfer Amddiffyn Plant yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Rhif	Camau Angenrheidiol	Llinell Amser	Cyfrifoldeb
1	Sefydlu set data craidd penodol o fesurau perfformiad allweddol	Ebrill 2018	**Alys Jones, (**Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd) **Natasha James, (**Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg) **Rheolwr Uned Busnes Diogelu**
2	Dadansoddi gwybodaeth sy'n dod i law a pharatoi adroddiad dadansoddi.	Mehefin 2018	
3	Gan ddefnyddio'r adroddiad dadansoddi, nodi unrhyw welliannau neu arfer da a rhoi adborth i'r BDPRh.	Awst 2018	
4	Cytuno ar ddull systematig o nodi a hybu arfer da a sicrhau yr eir i'r afael â gwelliannau.	Rhagfyr 2018	BDPRh

Blaenoriaeth 2 - Plant ar Gyrion y System Amddiffyn Plant

Canlyniad: Mae'r BDPRh yn sefydlu gwaith rheoli trothwy effeithiol.
Beth mae hyn yn ei olygu? Bydd y BDPRh yn sicrhau ei fod:

- Yn deall sut i weithredu trothwyon ar sail persbectif asiantaethau unigol
- Adolygu effeithiolrwydd gweithredu trothwyon ar sail rhyngasiantaethol
- Sicrhau bod dysgu yn arwain at wella'r gwaith o reoli trothwyon rhyngasiantaethol

Nifer	Camau gweithredu angenrheidiol	Llinell Amser	Cyfrifoldeb
1	Nodi un asiantaeth sydd yn y sefyllfa orau i fod yn destun y gwaith o archwilio atgyfeiriadau ar gyfer asesu gofal a chymorth	Mawrth 2018	BDPRh
2	Archwilio'r atgyfeiriadau gan yr asiantaeth unigol hwnnw na lwyddodd i fodloni trothwyon ymholiadau s47 neu ofal a chymorth	Gorffennaf 2018	BDPRh
3	Nodi meysydd lle ceir pryderon ac arfer da, sefydlu'r camau clir nesaf yn dibynnu ar ganlyniad yr uchod	Rhagfyr 2018	BDPRh

Blaenoriaeth 3 – Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau

Canlyniad: Sicrhau'r gwaith o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y system amddiffyn plant Sicrhau bod ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn dylanwadu ar safon ac effeithiolrwydd y system Amddiffyn Plant. Bydd y BDPRh yn:

- Deall i ba raddau y mae asiantaethau unigol yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ar hyn o bryd?
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael llais a rhoi blaenoriaeth i'r meysydd sydd angen sylw penodol

Beth mae hyn yn ei olygu? Nodi dulliau ystyrlon o sicrhau bod plant yn cael llais.

Rhif	Camau gweithredu angenrheidiol	Llinell Amser	Cyfrifoldeb
1	Ystyried sut mae pob asiantaeth yn cynnwys llais y plentyn yn eu prosesau diogelu, nodi unrhyw arferion defnyddiol ac unrhyw ddiffygion.	Mai 2018	Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu y BDRh
2	Casglu adborth gan blant ynghylch eu profiadau o asiantaethau, nodi meysydd i'w gwella ac arfer gorau.	Gorffennaf 2018	Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu y BDRh
3	Comisiynu sefydliad arbenigol i baratoi adroddiad yn cynnig awgrymiadau ar gyfer sefydlu dull/gweledigaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.	Mai 2018	Cadeirydd y BDPRh
4	Adrodd i'r BDPRh gan gynnig argymhellion ar gyfer sefydlu dull/gweledigaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg	Rhagfyr 2018	Sefydliad arbenigol fel y cytunwyd yng ngham 3

Blaenoriaeth 4 – Dysgu Gwersi ar sail Adolygiadau

Amcan: Sicrhau y caiff y gwaith o ledaenu a rhoi'r dysgu sy'n deillio o adolygiadau ymarfer plant ar waith ei gyflawni'n amserol.
Beth mae hyn yn ei olygu? Mae BDPRh Caerdydd a Bro Morgannwg yn cydnabod bod angen iddo wella ei allu i ddangos tystiolaeth ei fod yn dysgu gwersi yn seiliedig ar adolygiadau ac atgyfnerthu arfer i ddiogelu plant.

Rhif	Camau gweithredu angenrheidiol	Llinell Amser	Cyfrifoldeb
1	Gwella amseroldeb Adolygiadau Ymarfer Plant.	Yn mynd rhagddo o fis Mawrth 2018	Is-grwpiau a Phaneli Adolygu Ymarfer Plant / Adolygu Ymarfer Oedolion BDPRh
2	Cywain argymhellion ac adolygu'r rhain gyda golwg ar wneud unrhyw newidiadau i arfer.	Yn mynd rhagddo o fis Mawrth 2018	Is-grŵp ac Uned Fusnes Adolygu Ymarfer Plant / Adolygu Ymarfer Oedolion BDPRh
3	Sefydlu themâu allweddol yn deillio o adolygiadau a llunio systemau cadarn i fynd i'r afael â'r themâu hyn	Yn mynd rhagddo o fis Mawrth 2018	Is-grŵp ac Uned Fusnes Adolygu Ymarfer Plant / Adolygu Ymarfer Oedolion BDPRh

CYLLIDEB Y BWRDD

Sefydliad	Cyfraniad Cyfunedig a Gynigir (%)	Ymraniad Sefydliadol	Cyfraniad Presennol i'r BDPRh (%)	Cyfraniad a Gynigir (£)
Awdurdod Lleol	60%	Cyngor Caerdydd	67%	£60,000.00
		Cyngor Sir Bro Morgannwg	33%	£30,000.00
Heddlu De Cymru	10%	Heddlu De Cymru	100%	£15,000.00
Iechyd	25%	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	81.25%	£30,468.75
		GIG Felindre	18.75%	£7,031.25
Cyfnod Prawf	5%	CRC Cymru	50%	£3,750.00
		Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr	50%	£3,750.00
CYFANSWM	100%			£150,000

CYSYLLTWCH Â NI:

Cysylltwch â'r Uned Busnes Diogelu ar gyfer unrhyw wybodaeth/canllawiau eraill fel a ganlyn:

Cyfeiriad:

Uned Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

Ystafell 342

Neuadd y Sir

Caerdydd

CF10 4UW

☎ (02920) 871891

E-bost: caerdyddabromorgannwgBDR@caerdydd.gov.uk